Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Gradd ar Wahân?
# Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Rhagfyr 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Llun: Llys mewnol Archiginnasio di Bologna, sydd bellach yn gartref i Lyfrgell y Ddinas a'r Theatr Anatomeg enwog. Dyma un o adeiladau pwysicaf Bologna a oedd gynt yn un o brif adeiladau Prifysgol y ddinas.

Mae Proses Bologna yn gyfres o gyfarfodydd a chytundebau gweinidogol rhwng 48 o wladwriaethau Ewropeaidd gyda'r nod o sicrhau cyffelybrwydd o ran safonau ac ansawdd cymwysterau addysg uwch. Mae'r gwledydd hyn yn rhoi diwygiadau ar waith ar sail gwerthoedd allweddol cyffredin – fel rhyddid mynegiant, annibyniaeth i sefydliadau, undebau myfyrwyr annibynnol, rhyddid academaidd, a rhyddid i symud ar gyfer myfyrwyr a staff. Mae wedi'i henwi ar ôl Prifysgol Bologna, lle llofnodwyd datganiad Bologna ym 1999.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddPPIA**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Gradd ar Wahân?
Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Rhagfyr 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Lynne Neagle AC**
Llafur Cymru
Torfaen

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Dawn Bowden AC**
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



**Michelle Brown AC**
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



**Hefin David AC**
Llafur Cymru
Caerffili



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Janet Finch-Saunders AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Julie Morgan AC**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**John Griffiths AM**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



**Llyr Gruffydd AM**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Darren Millar AM**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Mark Reckless AM**
Grŵp Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru

# Cynnwys


**Argymhellion ..... 5**

**Y cefndir ..... 7**

1.1 Casglu tystiolaeth ..... 8

Tystiolaeth lafar ..... 8

Tystiolaeth ysgrifenedig ..... 8

Gweithgarwch ymgysylltu ..... 8

1.2 Digwyddiadau yn ystod yr ymchwiliad ..... 8

**Prif gasgliadau ..... 10**

2.1 Ystyried yr effeithiau ar addysg bellach ..... 12

2.2 Materion allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor ..... 13

**Mater Allweddol 1 - cyfyngiadau mewnfudo i staff a myfyrwyr yr UE ..... 14**

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ..... 16

Safbwyntiau eraill ..... 16

Safbwynt y Pwyllgor ..... 17

**Mater Allweddol 2 - diddymu Grantiau Ffioedd Dysgu a'r golled bosibl o fenthyciadau myfyrwyr ..... 19**

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ..... 20

Safbwynt y Pwyllgor ..... 21

**Mater allweddol 3 - y pwysau cyllido presennol a recriwtio myfyrwyr ..... 23**

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ..... 24

Safbwynt y Pwyllgor ..... 24

**Mater Allweddol 4 - ERASMUS+ a chynlluniau symudedd eraill ..... 26**

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ..... 27

Safbwynt y Pwyllgor ..... 28

**Mater Allweddol 5 - disodli cyllid yr UE ..... 30**

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ..... 32

Safbwynt y Pwyllgor ..... 33

**Mater Allweddol 6 - dibyniaeth colegau addysg bellach ar gryfder cyflogwyr a'r economi ..... 35**

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ..... 36

Safbwynt y Pwyllgor ........ 36

**Mater Allweddol 7 - Yr heriau sy'n wynebu ymchwil ac arloesi yng Nghymru ........ 38**

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ........ 39

Safbwynt y Pwyllgor ........ 40

**Mater Allweddol 8 - Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit ........ 42**

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru ........ 42

Safbwynt y Pwyllgor ........ 45

**Atodiad A – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ........ 46**

**Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ........ 47**

**Atodiad C - Nodyn ar y Digwyddiad Rhanddeiliaid - 4 Gorffennaf ..48**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru fynnu pwerau gweithredol, drwy unrhyw Fil Mewnfudo y DU yn y dyfodol, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheolau mewnfudo sy'n wahanol yn ofodol yn benodol ar gyfer myfyrwyr a staff academaidd yng Nghymru. *Nid yw Michelle Brown AC yn cytuno â'r casgliad hwn.* ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu prosiect ymchwil i ateb y cwestiwn o ran beth sy'n cymell myfyrwyr yr UE a myfyrwyr rhyngwladol eraill i ddod i Gymru i astudio, ac adrodd yn ôl o fewn y chwe mis nesaf. Dylai'r gwaith ymchwil hwn ystyried effaith dileu'r Grant Ffioedd Dysgu ar recriwtio myfyrwyr yr UE a datblygu ystod o gynigion er mwyn helpu prifysgolion i ddenu myfyrwyr rhyngwladol i astudio yng Nghymru, gan gynnwys gwerthusiad o gymhellion ariannol. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwerthusiad o'r rhaglen Cymru Fyd-eang I ac, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dangos sut y defnyddiwyd unrhyw wersi a ddysgwyd ohoni yn y rhaglen newydd Cymru Fyd-eang II. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwefan a deunydd marchnata Study in Wales, sy'n rhan o'r rhaglen Cymru Fyd-eang, yn cael eu diweddaru a'u hadnewyddu ar frys, gan gynnwys gwybodaeth am warant cyllid myfyrwyr yr UE ar gyfer 2019/20. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, egluro sut y mae'n sicrhau bod y rhaglen Cymru Fyd-eang II yn amlwg yn cefnogi ac o fudd i bob un o'r prifysgolion hynny yng Nghymru y mae llai o alw amdanynt gan fyfyrwyr yr UE. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, ddarparu gwybodaeth am effaith ddisgwyliedig rhaglen Cymru Fyd-eang II, gan gynnwys y niferoedd disgwyliedig o fyfyrwyr a buddion mesuradwy eraill. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 7.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach i weithredu a phrofi trefniadau ariannu a fydd yn gwarantu dim amhariad nac ansicrwydd ariannol i fyfyrwyr ERASMUS+, yn enwedig y rheini sy'n gwneud graddau iaith fodern, gan ystyried yr amodau sy'n gysylltiedig â gwarant cyfredol y Trysorlys . Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn pan fydd wedi gwneud hynny. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu prosiect ymchwil arall, gan adeiladu ar y gwaith diweddar a lywiodd y cynllun peilot ar symudedd rhyngwladol, i ddatblygu darlun manylach o effaith symudedd rhyngwladol ar ganlyniadau myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis. .......... Tudalen 29

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU bod buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol yn ddatrysiad datganoledig "gwnaed yng Nghymru" a dilyn ar ei hymrwymiad na chaiff buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol ei gynnwys yng nghyllidebau craidd Cymru ac y bydd yn parhau i fod yn aml-flwyddyn ei natur. .......... Tudalen 33

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach wrth ddatblygu unrhyw gynigion buddsoddi rhanbarthol manwl, i sicrhau bod y rôl allweddol y mae prifysgolion a cholegau yn ei chwarae wrth leihau anghydraddoldeb a chynyddu cynhyrchiant yn cael ei hystyried. .......... Tudalen 34

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i weithio ar y cyd â'r sector addysg bellach i ddatblygu a chyhoeddi cynllun ar y cyd, a ariennir gan gais am gyllid o Gronfa Bontio'r UE a chan ystyried yr anghenion rhanbarthol gwahanol, i nodi ac ymateb i unrhyw ofynion sgiliau newidiol y sectorau hynny sydd fwyaf tebygol o wynebu amhariad sy'n gysylltiedig â Brexit. .......... Tudalen 37

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd sylfaenol ymchwil ac arloesi i ffyniant Cymru a chydnabod y perygl o golli tir i Loegr a'r Alban o ran ariannu'r gweithgareddau hyn yn yr hyn sy'n sefyllfa gystadleuol iawn. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau ariannu'r argymhellion a wnaed gan yr Athro Reid yn ei adolygiad ar unwaith. .......... Tudalen 41

# Y cefndir

**1.** Ym mis Ebrill 2018 cytunodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ymgymryd ag ymchwiliad i ystyried effaith Brexit ar addysg uwch ac addysg bellach, gan gynnwys ymagwedd Llywodraeth Cymru wrth baratoi ar ei gyfer. Roedd yr ymchwiliad yn seiliedig ar dri maes arwyddocaol, sef:

- Canlyniadau dysgwyr a chyflogadwyedd;
- Cynaliadwyedd ariannol a chyfleoedd buddsoddi; a
- Chyllid a chydweithredu o ran ymchwil ac arloesi.

**2.** Cafodd y cylch gorchwyl llawn a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor ei eirio i sicrhau ei fod yn ystyried y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â Brexit, yn ogystal â'r heriau a ragwelir yn ehangach. Roedd y cylch gorchwyl y cytunwyd arno fel a ganlyn:

Canlyniadau dysgwyr a chyflogadwyedd

- Edrych ar yr heriau posibl i lwyddiant dysgwyr a'u cyflogadwyedd yn y dyfodol ar ôl Brexit, a holi beth a wneir a beth fydd yn bosibl ei wneud i oresgyn yr heriau hyn.
- Edrych ar yr effaith bosibl ar y sector yn sgil unrhyw golled o gynllun symudedd ERASMUS+ yr UE, a deall y cyfleoedd ar gyfer cynlluniau symudedd eraill sy'n bod neu y gellid eu datblygu'n synhwyrol.

Cynaliadwyedd ariannol a chyfleoedd buddsoddi

- Ystyried yr heriau posibl i gynaliadwyedd ariannol sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch sy'n codi yn sgîl Brexit.
- Ymchwilio i gysylltiad â chyllid yr UE o ran cynlluniau buddsoddi sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn y dyfodol, a beth yw'r cyfleoedd ar gyfer ffynonellau cyllid buddsoddi eraill.

Cyllid a chydweithredu o ran ymchwil ac arloesi

- Ymchwilio i ddibyniaeth sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar gyllid ymchwil ac arloesi yr UE yn y dyfodol.

- Edrych ar beth a wneir, a beth fydd yn bosibl ei wneud, i ddiogelu cydweithrediadau a rhwydweithiau ymchwil yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

## 1.1 Casglu tystiolaeth

### Tystiolaeth lafar

**3.** Cynhaliodd y Pwyllgor bedair sesiwn tystiolaeth lafar, ac mae'r manylion amdanynt wedi'u rhestru yn Atodiad A. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau gyda chynrychiolwyr addysg uwch ac addysg bellach; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

### Tystiolaeth ysgrifenedig

**4.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ysgrifenedig wedi'i dargedu hefyd. Cafodd y Pwyllgor 19 o ymatebion gan amryw randdeiliaid. Mae manylion am y rhai a ymatebodd wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

### Gweithgarwch ymgysylltu

**5.** Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad trafod gyda'r rhanddeiliaid i glywed barn y rheini sy'n gweithio yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach neu'n gweithio gyda hwy. Mae nodyn o'r safbwyntiau a fynegwyd yn y digwyddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

## 1.2 Digwyddiadau yn ystod yr ymchwiliad

**6.** Rhwng y pwyntiau lle dechreuodd yr ymchwiliad ym mis Mai 2018, a lle roedd y Pwyllgor yn dod i gasgliad ym mis Medi 2018, datblygodd digwyddiadau o amgylch Brexit yn barhaus, gyda nifer o safbwyntiau polisi Llywodraeth y DU yn dod yn fwy eglur neu'n newid. Maent yn parhau i ddatblygu bron yn ddyddiol.

**7.** O ganlyniad i hyn, ni chafwyd llawer o gyfle, os o gwbl, i gymryd tystiolaeth gan rai tystion ar faterion arwyddocaol a fyddai ond yn dod yn fwy eglur wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, ffurf system fewnfudo y DU yn y dyfodol.

**8.** At hynny, yn ystod yr ymchwiliad, ymddengys bod y posibilrwydd o Brexit "dim bargen" yn cynyddu, gan ddod yn llawer mwy amlwg o fewn y cyfryngau a chyhoeddiadau Llywodraeth y DU dros yr haf. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y

newid hwn, a dywedodd mewn tystiolaeth ar 20 Medi fod y posibilrwydd o "ddim bargen" wedi dod, o bosibl, yn fwy amlwg.[1]

[1] Tystiolaeth lafar Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 20 Medi 2018

# Prif gasgliadau

**9.** Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y tri chasgliad cyffredinol a ganlyn.

Casgliad 1: Bydd Brexit cymharol "ffafriol" yn dal yn gofyn i'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach addasu a newid yn eu meysydd gweithredu pwysicaf, tra bydd angen i'r sector addysg bellach, gyda'i gyrff staff a myfyrwyr rhyngwladol llawer llai, ymateb i newidiadau sy'n gysylltiedig â Brexit, gan gynnwys unrhyw newidiadau yn eu heconomïau lleol.

**10.** Mae'n debygol hyd yn oed gyda Chytundeb Ymadael cymharol "ffafriol" sy'n gweld cytundeb o ran y cytundebau cydweithrediad gwyddoniaeth ac arloesi, ac addysg a diwylliant a geir ym Mhapur Gwyn "Chequers" Llywodraeth y DU, bydd angen i lawer o feysydd allweddol gweithgarwch prifysgolion a cholegau addasu. Mae hyn yn arbennig o wir i'r sector addysg uwch lle mae gweithgarwch sylweddol yn gysylltiedig ar hyn o bryd â symudiad rhydd staff a myfyrwyr y DU a'r UE.

**11.** Er nad yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi polisi ar fewnfudo myfyrwyr yr UE eto, mae wedi cyhoeddi'r bwriad i sefydlu system fewnfudo ar gyfer gweithwyr nad yw'n gwahaniaethu yn seiliedig ar genedligrwydd. Mae hyn yn gadael y posibilrwydd ar agor ar gyfer triniaeth debyg i fyfyrwyr ac ymchwilwyr yr UE.

**12.** Ar yr un pryd, hyd yn oed os cytunir ar y cytundebau cydweithredol yn y Papur Gwyn "Chequers" gyda'r UE, mae'n debygol y byddai diffyg dylanwad gwneud penderfyniadau yn y DU o hyd o fewn rhaglenni fel ERASMUS+ a Horizon Europe o ganlyniad i'r DU yn meddu ar statws "trydydd gwlad".

Casgliad 2: Er gwaethaf gwarantau cyllid y Trysorlys, byddai sefyllfa "dim bargen" yn aflonyddgar iawn o hyd i'r ddau sector – yn fwyaf difrifol i'r sector addysg uwch gyda'i ystod eang o gydweithrediadau rhyngwladol a chyfranogiad mewn rhwydweithiau ymchwil.

**13.** Byddai sefyllfa "dim bargen" yn debygol o fod yn aflonyddgar iawn i'r ddau sector, ond i'r sector addysg uwch yn benodol oherwydd ei nifer fawr o gydweithrediadau rhyngwladol a chyfranogiad mewn rhwydweithiau ymchwil. Mae hyn er gwaethaf gwarantau cyllid a gynigiwyd gan Drysorlys EM, nad ydynt o bosibl yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyllid, ac sydd mewn rhai achosion, yn amodol.

**14.** Fel y dangosir gan “hysbysiadau dim bargen” Llywodraeth y DU, mae potensial o hyd i sefyllfa “dim bargen” gael effaith ddifrifol ar nifer o weithgareddau manwl a gweithgareddau technegol y tu allan i lifoedd arian parod. Mae prosiectau ymchwil a chydweithrediadau ymchwil yn arbennig o ddibynnol ar weithrediad didrafferth nifer fawr o weithgareddau y gall sefyllfa “dim bargen” gael effaith arnynt.

- Efallai y bydd darparwyr yn cael trafferth hyd yn oed defnyddio cyllid gwarant Trysorlys EM os yw partneriaid ymchwil yr UE yn colli hyder mewn cydweithrediadau, neu os yw'r tirlun rheoleiddiol newydd yn sgil Brexit “dim bargen” yn amharu ar bethau allweddol fel rhannu data, eiddo deallusol neu drwyddedu ac ymchwil meddygol, er enghraifft.
- Byddai angen i'r DU negodi cyfranogiad parhaus o hyd yn y cynllun ERASMUS+ mewn achos “dim bargen”. Yn wir ymddengys na fydd gwarant y Trysorlys ond yn cael ei sbarduno os gellir gwneud hyn. Mae hyn yn golygu efallai na fydd darparwyr yn derbyn cyllid gwarant ERASMUS+ am beth amser ar ôl dim bargen, gyda hyn yn ddibynnol eto ar sut beth fyddai'r system fewnfudo dim bargen.
- Gallai statws gwladolion y DU o fewn gwladwriaethau lletyol yr UE tra'u bod ar leoliadau symudedd allanol ac wrth gynnal gwaith ymchwil ddiwrnod ar ôl “dim bargen” fod yn ansicr os na fydd y DU a'r UE yn rhoi sicrwydd blaenorol.

**15.** Mae'r potensial hwn ar gyfer tarfu ehangach y tu hwnt i lifoedd cyllido yn golygu y gall strategaeth liniaru sy'n dibynnu'n helaeth ar warantau cyllid Trysorlys EM arwain at ymdeimlad ffug o ddiogelwch.

Casgliad 3: Nodwyd mai ychydig iawn o gyfleoedd o'r naill sector oedd yn codi o Brexit yn y byrdymor, a chodwyd y rhai a godwyd yng nghyd-destun gwneud y gorau o Brexit.

**16.** Roedd rhai rhanddeiliaid y clywodd y Pwyllgor ganddynt yn dadlau y byddai lle o hyd i brifysgolion Cymru wneud trefniadau gwerthfawr ar y cyd â sefydliadau'r UE i ddatblygu dyfarniadau academaidd gwahanol ymhellach, megis graddau dwbl, graddau ar y cyd a graddau tebyg.

**17.** Roeddent hefyd yn dadlau y byddai prifysgolion yn dal i fod yn rhydd i sefydlu eu cytundebau a'u cynlluniau symudedd myfyrwyr a staff eu hunain gyda

phrifysgolion unigol yr UE, ond y byddai'r trefniadau hyn ar eu pen eu hunain yn llawer llai boddhaol nag aros yn y rhaglen ERASMUS+.

**18.** Yn olaf, cyfeiriodd un o'r rhanddeiliad at y potensial ar gyfer datblygu Addysg Trawsgenedlaethol (dyfarnu graddau Cymreig i fyfyrwyr sy'n astudio mewn gwledydd eraill), yn enwedig drwy ddysgu o bell a dysgu cymysg gan ddefnyddio llwyfannau digidol newydd, ond y byddai angen strategaeth gydlynol gan y sectorau.[2]

## 2.1 Ystyried yr effeithiau ar addysg bellach

**19.** Mae'r Pwyllgor, yn ei brif gasgliadau, yn cydnabod y bydd Brexit yn effeithio ar y sectorau addysg bellach ac addysg uwch. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd o'r dystiolaeth a gafwyd, er bod llawer o themâu a rennir, ni fydd yr effaith ar y sector addysg uwch yn adlewyrchu'r effeithiau ar y sector addysg bellach, ac i'r gwrthwyneb.

**20.** Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf ei bod hi'n bwysig peidio â chyfuno'r effeithiau gweladwy iawn ar ein prifysgolion oherwydd eu hôl troed rhyngwladol eang, gyda'r effeithiau ar ein colegau sydd, er bod ganddynt nifer o gysylltiadau rhyngwladol o hyd, ar y cyfan â gwreiddiau mwy lleol.

**21.** Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yn ofalus y dystiolaeth a roddwyd gan ddarparwyr addysg bellach, ac wrth wneud hynny mae'n tynnu sylw at fater allweddol y rhyng-ddibyniaeth rhwng colegau a'u cyflogwyr rhanbarthol. O ganlyniad i hyn, mae'r Pwyllgor yn gwneud argymhelliad sydd â'r bwriad o sicrhau bod rôl colegau wrth ymateb i heriau economaidd ehangach Brexit yn cael ei gydnabod ac y darperir adnoddau ar ei gyfer.

**22.** Wedi dweud hyn, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o natur ddatblygol y gweithgarwch addysg bellach yng Nghymru ac yn croesawu hyn, gan gynnwys ei incwm masnachol cynyddol ac amrywiol, ei gysylltiadau rhyngwladol cynyddol a'r cynigion a geir gyda diwygiadau ôl-16 Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus a fydd yn arwain at fwy o newid eto. Ym marn y Pwyllgor, mae'n amlwg na fydd effaith Brexit ar golegau addysg bellach felly yn sefydlog - wrth i golegau ddilyn cyfleoedd i ddatblygu eu canolfannau ymchwil a datblygu eu hôl troed rhyngwladol, byddant yn anochel yn tyfu i gael eu heffeithio gan lawer o'r un heriau sy'n wynebu prifysgolion. Mae angen monitro hyn.

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 13 - Jisc

## 2.2 Materion allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor

**23.** Mae'r canfyddiadau a ddaw o gasgliadau'r Pwyllgor yn wyth mater allweddol yn bennaf. Er bod y materion hyn yn gysylltiedig i ryw raddau, mae'r adroddiad hwn yn archwilio eu manylion a'u goblygiadau ar wahân.

# Mater Allweddol 1 - cyfyngiadau mewnfudo i staff a myfyrwyr yr UE

## Canfu'r Pwyllgor fod y sector addysg uwch (ac i raddau llai, addysg bellach) yn hynod o sensitif i'r system fewnfudo yn y DU.

**24.** Mae dylanwad system fewnfudo'r DU yn ymestyn dros bron bob agwedd ar weithrediadau prifysgolion, o recriwtio (a pherfformiad ariannol canlyniadol), i'r gallu i ddenu a chadw ymchwilwyr sy'n gydnabyddedig yn rhyngwladol, i brofiad a chanlyniadau myfyrwyr.

Y gofynion mewnfudo presennol

Ar hyn o bryd, gall staff yr UE ddod i weithio ym mhrifysgolion Cymru, a gall myfyrwyr yr UE ddod i astudio ym mhrifysgolion Cymru o dan fframwaith rhyddid i symud presennol yr UE. Mae myfyrwyr israddedig yr UE yn talu'r un ffi dysgu blynyddol o £9,000 â myfyrwyr yng Nghymru, yn gallu cael gafael ar fenthyciadau ffioedd dysgu'r DU, ac i fyfyrwyr sy'n parhau, grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru. Yn 2016/17 roedd 6,235 o fyfyrwyr sydd wedi ymgartrefu yn yr UE ym mhrifysgolion Cymru.[3]

Fel rheol, rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol nad ydynt yn rhan o'r UE fodloni gofynion mwy rhagnodol fisa myfyrwyr Haen 4, gan dalu ffioedd rhyngwladol, tra bod yn rhaid i'r rhan fwyaf o staff rhyngwladol nad ydynt yn yr UE gael fisa gweithio Haen 2.

**25.** Ers yr haf, mae Llywodraeth y DU wedi dechrau egluro ei sefyllfa ar system fewnfudo yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd potensial sylweddol o hyd i bethau newid mewn ymateb i drafodaethau rhwng yr UE a'r DU.

**26.** Tra'n parhau i fod yn dawel ynghylch mewnfudo myfyrwyr yr UE (na chafodd ei ystyried gan adroddiad diweddar y Pwyllgor Cynghori ar Fudo[4]) roedd Llywodraeth y DU wedi nodi y byddai rheolau mewnfudo gweithwyr yn y dyfodol yn cynnwys sgiliau fel eu sail ac ni fyddent yn gwahaniaethu ar sail cenedligrwydd.

[3] Data HESA, O ble mae'r myfyrwyr yn dod?

[4] Pwyllgor Cynghori ar Fudo Mudo'r AEE i'r DU: Adroddiad Terfynol

Felly mae'n parhau'n bosibl ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn y gellid sefydlu system fewnfudo myfyrwyr y DU ar egwyddor debyg.

**27.** Clywodd y Pwyllgor bryderon mewn tystiolaeth y byddai nifer myfyrwyr a staff yr UE yn gostwng ar ôl Brexit pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i'r system fewnfudo - yn enwedig pe bai myfyrwyr hefyd yn colli mynediad at fenthyciadau ffioedd dysgu. Dadleuodd y rhanddeiliaid y byddai unrhyw ostyngiad mewn niferoedd yn effeithio nid yn unig ar berfformiad ariannol darparwyr, ond y byddai hefyd yn cael effaith negyddol ar amrywiaeth gyffredinol y cyrff myfyrwyr a staff. Byddai hyn yn effeithio ar brofiad y myfyriwr.

**28.** O ran yr effaith ar brofiad y myfyriwr, clywodd y Pwyllgor gan yr Athro Maria Hinfelaar, is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam y byddai gostyngiad yn nifer myfyrwyr yr UE ar y campws yn:

> "…impoverish the quality and the international dimension to the education programmes that we can offer in Wrexham if we have fewer international students on campus."[5]

**29.** Nododd Prifysgol Caerdydd yn ei hymateb:

> "Rydym o'r farn fod cael myfyrwyr (a staff) o'r UE a ledled y byd yn creu amgylchedd dysgu amrywiol a buddiol. Mae'r amrywiaeth hon yn meithrin creadigrwydd ac arloesedd, ac mae'n rhan hollbwysig o'n diwylliant."[6]

**30.** Adleisiwyd hyn gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru a oedd yn dadlau bod yr amgylchedd dysgu wedi cael ei gyfoethogi'n fawr drwy symudedd rhyngwladol myfyrwyr[7]. Ychwanegodd Prifysgolion Cymru fod staff yr UE yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi ansawdd ac amrywiaeth y ddarpariaeth addysgu.[8]

**31.** Yn fwy cyffredinol, nododd y Pwyllgor fod nifer o brifysgolion Cymru wedi datblygu Strategaethau Rhyngwladoli sy'n canmol manteision presenoldeb staff a myfyrwyr rhyngwladol ar y campws yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys, yn arbennig, Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n nodi yn ei Chynllun Strategol:

> "The internationalisation of the University enriches the learner experience, facilitates the development of relevant programmes and

[5] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 83], 12 Gorffennaf 2018

[6] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 05 – Prifysgol Caerdydd

[7] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 06 – Y Gymdeithas Ddysgedig

[8] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 06 - Y Gymdeithas Ddysgedig

> curricula, and is beneficial for the economy and culture of Cardiff and Wales."[9]

**32.** Dywedodd CCAUC wrth y Pwyllgor, er na fyddai Brexit yn effeithio ar "safonau trothwy" sylfaenol graddau'r DU (byddai'r ansawdd sylfaenol yn aros yr un fath), gallai'r "cyfoeth ar ben hynny" sy'n dod o gael myfyrwyr o wahanol gefndiroedd a safbwyntiau ddirywio, gan effeithio ar wella ansawdd.[10]

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**33.** Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet â'r rhanddeiliaid ynglŷn â gwerth corff myfyrwyr a staff amrywiol. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddi am y posibilrwydd o gael rheolau mewnfudo gwahanol i fyfyrwyr a staff ar gyfer Cymru yn unig (system fewnfudo sy'n wahanol yn ofodol), dywedodd:

> "with regard to immigration, clearly, this is something, at the moment, that is out of our hands."[11]

**34.** Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei gwneud yn glir a oedd trafodaethau ynglŷn â system fewnfudo sy'n wahanol yn ofodol ar gyfer myfyrwyr a staff wedi'u cynnal neu beth oedd y canlyniadau pe baent.

**35.** Mae Llywodraeth Cymru, yn ei phapur polisi ar symud pobl yn deg ar ôl Brexit yn nodi nad yw'n rhagweithiol ceisio system fewnfudo sy'n wahanol yn ofodol ond y byddai'n mynnu un os na fydd polisi mewnfudo'r DU yn diwallu anghenion Cymru. Fodd bynnag, er bod Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu system fewnfudo sy'n wahanol yn ofodol i Gymru, mae'n gwneud hynny yn bennaf o safbwynt mewnfudo gweithwyr/economaidd yn hytrach na myfyrwyr a staff.

## Safbwyntiau eraill

**36.** Cyhoeddodd yr Arsyllfa Ymfudiad ym Mhrifysgol Rhydychen adroddiad ym mis Hydref 2017, a oedd yn cynnwys manylion am sut y gall system fewnfudo sy'n wahanol yn ofodol weithredu.[12] Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyhoeddi

---

[9] Cynllun Strategol Prifysgol Metropolitan Caerdydd

[10] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 121], 18 Gorffennaf 2018

[11] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 81], 20 Medi 2018

[12] Adroddiad yr Arsyllfa Ymfudo: Location, Location, Location: Should different parts of the UK have different immigration policies?

papur trafod ar anghenion poblogaeth yr Alban a'r polisi mudo.[13] Mae Llywodraeth yr Alban wedi galw am fwy o bwerau dros fewnfudo.[14]

**37.** Mae Llywodraeth y DU wedi nodi o'r blaen nad oes ganddi fwriad i ddatganoli pwerau mewnfudo. Serch hynny, mae rheolau mewnfudo penodol sy'n wahanol yn ofodol eisoes ar gael (er enghraifft, peilot fisa gwaith ar ôl astudio yn nifer o brifysgolion Cymru), er mai Llywodraeth y DU sy'n drafftio'r rhain.

## Safbwynt y Pwyllgor

**38.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn bod y dystiolaeth a gafwyd yn nodi y bydd y newid sydd bron yn anochel o'r sefyllfa mewnfudo bresennol yn cael effaith niweidiol ar brifysgolion.

**39.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y dystiolaeth yn dangos, er mwyn lleihau ansicrwydd rhaid cael cyn lleied â phosibl o newid i'r rheolau sy'n llywodraethu symudiad staff a myfyrwyr yr UE. Ochr yn ochr â hyn, nododd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch agweddau cyhoeddus tuag at ymfudo myfyrwyr sydd, er ei bod yn gyfyngedig, yn awgrymu bod agweddau o'r fath yn ffafriol yn gyffredinol i fewnfudo myfyrwyr ac yn gwahaniaethu ymfudo myfyrwyr o fathau eraill o fewnfudo[15].

**40.** Gyda'r uchod mewn cof, cred y Pwyllgor y dylai'r rheolau mewnfudo ar gyfer myfyrwyr yr UE a myfyrwyr rhyngwladol eraill gael eu dwyn ynghyd yn un gyfres o reolau ar gyfer pob myfyriwr rhyngwladol sy'n dod i Gymru i astudio ac y dylai'r system hon weithredu mewn ffordd sy'n cydnabod canfyddiad y cyhoedd o fewnfudo academaidd a'r buddiannau economaidd a ddaw i brifysgolion Cymru ac economi Cymru.

**41.** Ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod gwerth y gwaith ymchwil a'r addysgu a wneir gan staff academaidd ym mhrifysgolion a cholegau Cymru, a'u cyfraniad cadarnhaol i brofiad myfyrwyr, sy'n arwain y Pwyllgor i ddod i'r casgliad y dylid sefydlu rheolau mewnfudo cystal ar gyfer staff academaidd.

**42.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw rheolau mewnfudo wedi'u datganoli, a bod Llywodraeth y DU wedi cynnig Bil Mewnfudo'r DU yn y dyfodol a fydd yn debygol o effeithio ar fewnfudo staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, rydym yn galw am ddatrysiad "gwnaed yng Nghymru" ac i Gymru, mewn perthynas â myfyrwyr a staff

[13] Papur trafod Llywodraeth yr Alban: Anghenion poblogaeth yr Alban a'r polisi mudo: papur trafod

[14] Sylw yn y cyfryngau gan y Guardian ynghylch papur Llywodraeth yr Alban yn galw am ddatganoli'r polisi mewnfudo

[15] Prifysgolion y DU - arolwg o fyfyrwyr rhyngwladol

academaidd, i ymuno â'r ddadl ehangach ynghylch rheolau mewnfudo sy'n wahanol yn ofodol ar gyfer gwledydd y DU.

**43.** Credwn na ddylai Llywodraeth Cymru aros i weld sut beth yw unrhyw gynigion mewnfudo newydd yn y DU. Yn hytrach dylai wneud popeth o fewn ei gallu i ennill y pwerau sydd eu hangen arni i ganiatáu iddi weithredu'r rheolau mewnfudo Cymru-yn-unig ar gyfer myfyrwyr a staff academaidd y cred y Pwyllgor sydd eu hangen ar y sector. *Nid yw Michelle Brown AC yn cytuno â'r casgliad hwn.*

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru fynnu pwerau gweithredol, drwy unrhyw Fil Mewnfudo y DU yn y dyfodol, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheolau mewnfudo sy'n wahanol yn ofodol yn benodol ar gyfer myfyrwyr a staff academaidd yng Nghymru. *Nid yw Michelle Brown AC yn cytuno â'r casgliad hwn.*

# Mater Allweddol 2 - diddymu Grantiau Ffioedd Dysgu a'r golled bosibl o fenthyciadau myfyrwyr

## Canfu'r Pwyllgor y gall colli'r *grant* ffioedd dysgu a'r golled bosibl o'r *benthyciadau* ffioedd dysgu wneud llawer o brifysgolion Cymru yn llai deniadol i fyfyrwyr yr UE.

**44.** O fis Medi 2018, fel rhan o ddiwygiadau Diamond ar gyfer cymorth ariannol myfyrwyr, nid yw'r grant ffioedd dysgu bellach ar gael i fyfyrwyr israddedig newydd, gan gynnwys y rhai o'r UE. Mae hyn yn golygu y bydd angen i fyfyrwyr newydd israddedig yr UE ariannu'r ffi gyfan o £9,000 o'r flwyddyn academaidd hon ymlaen.

**45.** Er mwyn talu eu ffioedd, ar hyn o bryd mae myfyrwyr yr UE yn dal i allu cael benthyciad ffioedd dysgu gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar yr un sail â myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru - mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwarantu hyn i fyfyrwyr yr UE sy'n dechrau yn 2019/20, hyd yn oed os bydd sefyllfa "dim bargen", ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid yw wedi ymestyn hyn ymhellach.

**46.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod diddymu'r grant ffioedd dysgu o bosibl eisoes wedi cael effaith negyddol ar recriwtio myfyrwyr yr UE, a gallai hyn egluro'n rhannol o leiaf ddata ceisiadau UCAS sy'n dangos gostyngiad o 10 y cant yng ngalw'r UE i astudio yng Nghymru hyd yma yn 2018/19, yn wahanol i'r cynnydd cyffredinol o 2 y cant ar draws y DU yn seiliedig ar UCAS.

**47.** O ran parhau â mynediad at fenthyciadau ffioedd dysgu, cyflwynodd Prifysgol Caerdydd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn nodi fel a ganlyn:

> "heb gamau lliniaru fel ysgoloriaeth neu fwrsariaeth yr UE, mae Prifysgol Caerdydd yn bryderus y gallai'r senario waethaf olygu bod Cymru'n colli 80–90 y cant o'i myfyrwyr israddedig presennol o'r UE sy'n hanu o'r tu allan i'r DU."[16]

**48.** Pan ofynnodd y Pwyllgor am sail y cyfrifiad, eglurodd Prifysgol Caerdydd ei fod yn seiliedig ar ganran myfyrwyr yr UE sydd â mynediad at fenthyciadau

[16] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 05 – Prifysgol Caerdydd

myfyrwyr y DU, neu sy'n manteisio arnynt. Eglurodd yr Athro Nora de Leeuw o Brifysgol Caerdydd i'r Pwyllgor fod oddeutu 84 y cant o fyfyrwyr yr UE ledled Cymru yn rhan o'r categori hwn yn 2015-16.

Mae ystadegau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn dangos bod 82 y cant o fyfyrwyr cymwys yr UE yn derbyn benthyciadau myfyrwyr (neu 2,700 o fyfyrwyr).[17]

**49.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd yr Athro de Leeuw:

> "We consider that those students that need the Student Loans Company to finance their studies will probably no longer come to the UK [if they lost access to student loans]."[18]

**50.** Ychwanegodd yr Athro Hinfelaar o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam:

> "We work with a number of colleges in Germany, vocational colleges, and we have an articulation route mapped out with those colleges. They send us about 150 students each year, and those students come into the final year of engineering programmes at Wrexham Glyndŵr University. There is absolutely no way that they would be able to afford paying fees up front in the middle of their programme of studies. It's just not going to happen. So, that particular arrangement would, essentially, die on its feet."[19]

**51.** Tynnodd yr Athro Hinfelaar sylw'r Pwyllgor hefyd at adroddiad Prifysgolion Cymru[20] sy'n honni bod pob myfyriwr yr UE wedi cael effaith gadarnhaol y pen ar Gymru o bron i £10,000 yn 2015/16. Dywedodd fod hyn yn fwy na gwneud iawn am y cymhorthdal £5,000 (y grant ffioedd dysgu).[21]

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**52.** Yn ei hymateb i'r Pwyllgor, nododd Ysgrifennydd y Cabinet ei safbwynt o ran effaith tynnu'r grant ffioedd dysgu yn ôl, yn benodol ar gyfer myfyrwyr yr UE, gan nodi er nad oedd y darlun recriwtio terfynol ar gyfer 2018/19 yn hysbys eto, roedd yn "anochel" y byddai ei dynnu'n ôl yn cael effaith ar recriwtio. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddadlau ei fod yn rhoi Cymru yn yr un sefyllfa â myfyrwyr yr UE

[17] Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Ystadegau cymorth myfyrwyr ar gyfer Cymru
[18] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 34], 12 Gorffennaf 2018
[19] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 36], 12 Gorffennaf 2018
[20] Adroddiad Prifysgolion Cymru: Effaith Economaidd Myfyrwyr Rhyngwladol yng Nghymru
[21] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 12 Gorffennaf 2018

sy'n gwneud cais i Loegr, gan gadarnhau bod yr adolygiad Diamond wedi rhagweld canlyniad i'r newid yn y polisi.[22]

**53.** O ran benthyciadau ffioedd dysgu, ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet warant Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr yr UE sy'n dechrau yn 2019/20, a dywedodd:

> "I wish I could go further, but that's out of my hands. We're working to the limits of what I feel comfortable in being able to guarantee without further guarantees from Westminster."[23]

## Safbwynt y Pwyllgor

**54.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r ffigurau terfynol ar gyfer cofrestriadau prifysgol eleni yn hysbys eto, ond mae'n bryderus iawn ynghylch y gostyngiad o 10 y cant yng ngalw myfyrwyr yr UE i astudio yng Nghymru hyd yma yn 2018/19, yn enwedig wrth fesur yn erbyn cynnydd cyffredinol o 2 y cant yn ôl y galw ledled y DU.

**55.** Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd na ellir egluro'r gostyngiad hwn mewn recriwtio drwy Brexit yn unig.

**56.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod dileu'r Grant Ffioedd Dysgu yn debygol o fod wedi chwarae rhan arwyddocaol yn y gostyngiad presennol yng ngalw myfyrwyr yr UE, ond mae'n derbyn bod hyn yn ganlyniad tebygol y pecyn ehangach o ddiwygiadau Diamond i gymorth ariannol myfyrwyr.

**57.** Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn dal yn bryderus bod dileu'r Grant Ffioedd Dysgu hefyd yn dileu mantais gynhenid yr oedd prifysgolion Cymru yn ei mwynhau o ran recriwtio myfyrwyr yr UE ac y gallai hyn wneud prifysgolion Cymru yn llai deniadol i fyfyrwyr posibl o'r UE.

**58.** Cred y Pwyllgor mai'r ateb mwyaf amlwg fyddai ailosod y Grant Ffioedd Dysgu a/neu dalu'r gost o fynediad parhaus i fyfyrwyr yr UE at fenthyciadau ffioedd dysgu. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod y byddai'r opsiwn hwn, o ystyried y symiau a dalwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, yn cynnwys costau sylweddol a fyddai'n gofyn am wneud achos i ddechrau. Cyn casglu mwy o dystiolaeth, nid yw'n hysbys a fyddai cam gweithredu o'r fath y defnydd mwyaf darbodus o gyllid cyhoeddus o ystyried yr heriau eraill a wynebir gan y sectorau.

---

[22] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 20 Medi 2018

[23] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 20 Medi 2018

**59.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i gymryd ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol drwy raglen Cymru Fyd-eang[24], gyda'r bwriad o hybu'r gwaith o recriwtio myfyrwyr a chydweithredu gydag ymchwilwyr rhyngwladol. Ond mae'r Pwyllgor o'r farn, o'i weithgaredd ei hun i geisio comisiynu ymchwil i'r mater hwn, bod bwlch sylweddol o hyd o ran deall pam mae myfyrwyr yr UE yn dod i Gymru.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu prosiect ymchwil i ateb y cwestiwn o ran beth sy'n cymell myfyrwyr yr UE a myfyrwyr rhyngwladol eraill i ddod i Gymru i astudio, ac adrodd yn ôl o fewn y chwe mis nesaf. Dylai'r gwaith ymchwil hwn ystyried effaith dileu'r Grant Ffioedd Dysgu ar recriwtio myfyrwyr yr UE a datblygu ystod o gynigion er mwyn helpu prifysgolion i ddenu myfyrwyr rhyngwladol i astudio yng Nghymru, gan gynnwys gwerthusiad o gymhellion ariannol.

---

[24] Mae Cymru Fyd-eang yn bartneriaeth rhwng British Council Cymru, Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sy'n hyrwyddo sector addysg uwch o'r radd flaenaf Cymru.

# Mater Allweddol 3 - y pwysau cyllido presennol a recriwtio myfyrwyr

## Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod gwahaniaeth cynyddol mewn perfformiad recriwtio ymhlith prifysgolion, ac o ganlyniad i hyn, efallai y bydd rhai yn cael eu heffeithio'n fwy, ac yn ei chael hi'n fwy anodd ymateb i Brexit.

**60.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth bod gan y sector addysg uwch yng Nghymru lawer o bwysau sy'n bodoli eisoes sy'n agored i gael eu dwysáu gan unrhyw effeithiau negyddol Brexit.

**61.** Eglurodd CCAUC wrth y Pwyllgor mai'r prif bwysau sy'n wynebu'r sector addysg uwch yng Nghymru yw'r sefyllfa ariannu sydd yn ei dro yn gysylltiedig â pherfformiad recriwtio ac ymchwil.[25]

**62.** Aeth CCAUC ymlaen i egluro y cred bod y sectorau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr yn dangos tueddiad am wahaniaeth cynyddol ym mherfformiad recriwtio rhwng y gwahanol fathau o ddarparwyr o blaid sefydliadau a elwir yn "tariff uwch" a'r rheini sydd â phresenoldeb cryf yn rhyngwladol.[26]

**63.** Mae gan y sector addysg uwch yng Nghymru strwythur gwahanol i sectorau'r Alban a Lloegr, gyda dim ond un sefydliad tariff uwch. Dadleuodd CCAUC hefyd nad oes gan Gymru lawer o sefydliadau sydd â'r presenoldeb rhyngwladol cryf y cred sy'n angenrheidiol. Dywedodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC wrth y Pwyllgor:

> "I think performance is increasing, but increasing substantially with some of the English sector, not all of it. So, you get an average for the sector that is increased performance, but actually the stronger players within that sector, with the stronger international profiles, are bringing that up, and we have fewer in Wales that have that sort of presence."[27]

**64.** Yn erbyn y cefndir hwn, rhoddodd CCAUC wybod i'r Pwyllgor fod y sector addysg uwch yng Nghymru ar hyn o bryd mewn sefyllfa "diffyg a reolir", hyd nes y

---

[25] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 18 Gorffennaf 2018

[26] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 18 Gorffennaf 2018

[27] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 45] – 18 Gorffennaf 2018

bydd y buddsoddiad disgwyliedig o'r Adolygiadau Diamond a Reid, a heb hyn byddai angen i brifysgolion ddechrau rheoli costau i raddau mwy na'r hyn maent wedi bod yn ei wneud.

**65.** Fodd bynnag, nododd CCAUC hefyd:

> "Based on the financial results for the year ended 31 July 2016 our view is that the sector's financial position is currently sound overall but with increasing variability in the performance of individual HEIs. However, risks are growing in relation to EU, international and home recruitment."[28]

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**66.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor yn anghytuno bod y sefydliadau tariff is dan anfantais o ran recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a'r UE, gan ddweud:

> "I would argue that it's not necessarily the case that institutions that are not high-tariff are not able to do very well in this sector. If you look, for instance, at Swansea University — if you look at the work Swansea University has done, that shows you what is possible."[29]

**67.** Aeth ymlaen i ddweud y cred bod angen i'r sector gael ei gynnig i fyfyrwyr cartref a rhyngwladol yn iawn:

> "It's a combination, I believe, for all universities, of getting their offer right—so, having a curriculum at their institution that is attractive and offers courses that people want to study [...] high quality ratings for teaching, as well as having an infrastructure that is attractive to students. So, it's all about getting the offer right and providing what students, both domestically and internationally, want."[30]

## Safbwynt y Pwyllgor

**68.** Mae'r Pwyllgor yn deall bod pwysau recriwtio o'r math a ddisgrifir gan CCAUC i'w gweld ledled y DU ac nid ydynt o ganlyniad i Brexit. Felly, er nad yw'r Pwyllgor yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch y mater hwn, cred y Pwyllgor fod rôl i

[28] Cylchlythyr CCAUC: Sefyllfa ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru: canlyniadau ariannol 2015/16

[29] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 53], 20 Medi 2018

[30] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 20 Medi 2018

Lywodraeth Cymru wrth gynorthwyo prifysgolion i liniaru'r effaith y byddai unrhyw achos o recriwtio llai o fyfyrwyr yr UE yn ei chael ar y pwysau recriwtio presennol.

**69.** Felly mae'r Pwyllgor yn croesawu'r rhaglen Cymru Fyd-eang II a nodwyd yn flaenorol mewn egwyddor. Fodd bynnag, mae'n bryderus i sicrhau bod y rhaglen hon, sy'n defnyddio cyllid cyhoeddus, nid yn unig o fudd i'r prifysgolion hynny yng Nghymru sydd fwyaf mewn perygl o wynebu gostyngiad o ran recriwtio myfyrwyr yr UE, ond ei fod yn ddefnydd effeithiol o'r arian cyhoeddus hwnnw gyda dealltwriaeth glir o'r gwerth ychwanegol a gynigir ac amcanion y rhaglen.

**70.** Roedd y Pwyllgor hefyd yn synnu ac yn siomedig nodi bod gwefan Study in Wales, rhan o raglen Cymru Fyd-eang, yn ymddangos yn hen ac nad oedd ar adeg ei defnyddio yn sôn am ymestyn cymorth ariannol myfyrwyr yr UE i 2019/20.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwerthusiad o'r rhaglen Cymru Fyd-eang I ac, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dangos sut y defnyddiwyd unrhyw wersi a ddysgwyd ohoni yn y rhaglen newydd Cymru Fyd-eang II.

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwefan a deunydd marchnata Study in Wales, sy'n rhan o'r rhaglen Cymru Fyd-eang, yn cael eu diweddaru a'u hadnewyddu ar frys, gan gynnwys gwybodaeth am warant cyllid myfyrwyr yr UE ar gyfer 2019/20.

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, egluro sut y mae'n sicrhau bod y rhaglen Cymru Fyd-eang II yn amlwg yn cefnogi ac o fudd i bob un o'r prifysgolion hynny yng Nghymru y mae llai o alw amdanynt gan fyfyrwyr yr UE.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, ddarparu gwybodaeth am effaith ddisgwyliedig rhaglen Cymru Fyd-eang II, gan gynnwys y niferoedd disgwyliedig o fyfyrwyr a buddion mesuradwy eraill.

# Mater Allweddol 4 - ERASMUS+ a chynlluniau symudedd eraill

## Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gyson gadarnhaol ynghylch symudedd myfyrwyr rhyngwladol, gan glywed ei fod yn gwella profiad y myfyriwr, yn gallu gwella canlyniadau ac mae'n hanfodol i gyflwyno graddau iaith modern.

**71.** Yn y dystiolaeth lafar a'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafodd y Pwyllgor, roedd consenswS llawn ynghylch gwerth a phwysigrwydd lleoliadau symudedd rhyngwladol myfyrwyr a staff ar draws yr holl randdeiliaid.

**72.** Cytunodd y panel o gynrychiolwyr addysg uwch a roddodd dystiolaeth, er bod ERASMUS+ ond yn un o nifer o gynlluniau symudedd, y byddai cymryd rhan ynddi ar ôl Brexit yn fuddiol iawn o hyd.[31]

**73.** Eglurodd aelodau'r panel fod y rhesymau dros hyn yn cynnwys anhawster o ran disodli'r cyllid, y ffaith bod ERASMUS+ yn frand hysbys sy'n gyfarwydd i sefydliadau addysg uwch a myfyrwyr yr UE, ac yn y dyfodol, roedd y cynllun yn debygol o allu darparu'r cyfleoedd symudedd tymor byrrach o'r math y mae grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn fwy tebygol o gymryd rhan ynddynt.

**74.** Pan holwyd yr Athro Hinfelaar ynghylch anhyblygrwydd cyfredol y cynllun ERASMUS+, eglurodd:

> "…the Erasmus+ scheme is evolving and is going to be a lot more flexible from next year onwards, which really addresses any concerns that it was a bit of a straitjacket. So, it'll be more flexible in terms of the period of time and where students and staff can be supported around mobility."[32]

**75.** Cyflwynodd ColegauCymru dystiolaeth hefyd sy'n dangos pwysigrwydd ERASMUS+ i'r sector addysg bellach, gan nodi bod cyfranogiad yn Erasmus+ a rhaglenni blaenorol wedi bod yn amhrisiadwy i ddysgwyr yng Nghymru.[33] Mae hyn er gwaethaf niferoedd llai yn gyffredinol nag yn y sector addysg uwch.

[31] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 23], 12 Gorffennaf 2018

[32] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion, [paragraff 23], 12 Gorffennaf 2018

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 01 - ColegauCymru

**76.** Cynigiodd Berwyn Davies o Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel dystiolaeth i'r Pwyllgor i ddangos effaith gadarnhaol symudedd rhyngwladol ar brofiad a chanlyniadau myfyrwyr. Eglurodd fod darn o waith ymchwil wedi dangos bod myfyrwyr sydd wedi treulio peth amser dramor 19 y cant yn fwy tebygol o gael gradd dosbarth cyntaf.

**77.** Tynnodd yr Athro de Leeuw sylw'r Pwyllgor at bryder sylweddol arall. Roedd hyn yn ymwneud â dibyniaeth ar grantiau ERASMUS+ i ddarparu graddau ieithoedd modern sydd fel arfer yn gofyn am dreulio blwyddyn dramor. Eglurodd yr Athro y byddai'n anodd iawn disodli'r arian hwn.

Data ERASMUS+

Roedd data a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn dangos y canlynol:

- Mae 307 o fyfyrwyr a 55 o staff o ddarparwyr addysg bellach yng Nghymru wedi cymryd rhan yn rhaglenni symudedd ERASMUS+ ers 2015.
- O fewn y sector addysg uwch yng Nghymru, roedd 226 o staff a 1,497 o fyfyrwyr wedi gwneud hynny dros 2014/15 a 2015/16.
- Roedd bron i 700 o fyfyrwyr prifysgol wedi ymgymryd â lleoliad yn 2016/17 ac roedd 4,500 wedi gwneud hynny rhwng 2007 a 2014.
- Ym Mhrifysgol Caerdydd cynhaliwyd rhyw 27 y cant o leoliadau symudedd prifysgol drwy ERASMUS+ (roedd hyn yn cynrychioli rhyw 40 y cant o gyllid y brifysgol ar gyfer symudedd rhyngwladol gan fod myfyrwyr ERASMUS yn cynnal lleoliadau hwy).

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**78.** Mae Llywodraetha Cymru a Llywodraeth y DU wedi mynegi'r awydd i'r DU barhau i gymryd rhan yn ERAMSUS+ fel rhan o'r berthynas â'r UE yn y dyfodol. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, cytunodd Llywodraeth Cymru â'r farn gadarnhaol o symudedd staff a myfyrwyr rhyngwladol gydag Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi:

> "there is a huge amount to be gained for Welsh students and young people participating in the Erasmus programme."[34]

[34] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 34], 20 Medi 2018

**79.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda swyddogion yn San Steffan ynghylch darpariaeth Erasmus+ mewn senario "dim bargen", a sut beth fyddai prosiect annibynnol y DU.[35]

## Safbwynt y Pwyllgor

**80.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n galonogol gyda'r dystiolaeth a gafwyd ar werth symudedd rhyngwladol allanol a mewnol staff a myfyrwyr, a phwysigrwydd sylfaenol grantiau ERASMUS+ i raglenni iaith fodern.

**81.** Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod Llywodraeth Cymru yn gwneud, a bod yn rhaid iddi barhau i wneud popeth o fewn ei gallu i gynnal cyfranogiad yn ERASMUS+, ac mae'n croesawu datganiad Ysgrifennydd y Cabinet i'r perwyl hwn ar 20 Tachwedd 2018. Cred y Pwyllgor fod yn rhaid i gyfranogiad parhaus yn ERASMUS+ fod yr opsiwn a ffefrir i'r ddau sector o'i gymharu â chreu rhaglen symudedd newydd yn y DU.

**82.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet o raglen beilot dair blynedd o gyfleoedd symudedd byrdymor o natur a ddylai ddenu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn benodol.

**83.** Fodd bynnag, cred y Pwyllgor nad yw'r sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â'r buddiannau a ddaw yn sgil symudedd rhyngwladol i fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn arbennig o ran canlyniadau eu rhaglenni, o ystyried ymdrechion y Pwyllgor i gomisiynu gwaith ymchwil i'r mater hwn, wedi'u datblygu ddigon.

**84.** Felly, cred y Pwyllgor fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â symudedd rhyngwladol, yn arbennig ei effaith ar ganlyniadau myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Er y cyfeiriwyd at y mater hwn mewn gwaith ymchwil a wnaed i lywio'r cynllun peilot diweddar ar symudedd rhyngwladol, teimla'r Pwyllgor y dylid datblygu hyn ymhellach.

**Argymhelliad 7.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach i weithredu a phrofi trefniadau ariannu a fydd yn gwarantu dim amhariad nac ansicrwydd ariannol i fyfyrwyr ERASMUS+, yn enwedig y rheini sy'n gwneud graddau iaith fodern, gan ystyried yr amodau sy'n gysylltiedig â gwarant cyfredol y Trysorlys. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn pan fydd wedi gwneud hynny.

[35] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion, [paragraff 16], 20 Medi 2018

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu prosiect ymchwil arall, gan adeiladu ar y gwaith diweddar a lywiodd y cynllun peilot ar symudedd rhyngwladol, i ddatblygu darlun manylach o effaith symudedd rhyngwladol ar ganlyniadau myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis.

# Mater Allweddol 5 - disodli cyllid yr UE

## Canfu'r Pwyllgor y bydd yn rhaid i'r sector addysg uwch a'r sector addysg bellach symud i ffwrdd o sawl math o gyllid yr UE, tuag at gyllid y DU a fydd â nodweddion gwahanol, tra bod ansicrwydd sylweddol yn parhau o ran buddsoddwyr rhanbarthol yn y dyfodol.

**85.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth i ddangos bod arian y gwahanol fathau o gyllid yr UE yn cael ei integreiddio i weithrediadau arferol darparwyr addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. Cafodd y Pwyllgor wybod bod gan yr arian hwn gan yr UE nodweddion penodol sy'n werthfawr, megis cylchoedd aml-flwyddyn a thalu gorbenion ymchwil er enghraifft.

**86.** Clywodd y Pwyllgor gan y panel addysg bellach fod rhaglen dysgu yn seiliedig ar waith Llywodraeth Cymru yn tynnu ar gyllid sylweddol gan yr UE ac efallai na fydd dim yn ei le y tu hwnt i 2023. Mae'n dadlau bod hyn yn arwain at y cwestiwn ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y rhaglenni dysgu yn seiliedig ar waith.

**87.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ar y cyd, dywedodd Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel:

> "Welsh universities have received significant funding from direct European funding such as the research and innovation programmes, Structural Funds and other programmes."[36]

**88.** Mae Prifysgolion Cymru yn honni bod prifysgolion Cymru wedi derbyn tua £570 miliwn o gronfeydd strwythurol yr UE ers 2000. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod Cymru, hyd at fis Medi 2017, wedi ennill oddeutu €83 miliwn o'r rhaglen ymchwil Horizon 2020[37], gyda 66 y cant o hyn yn mynd i brifysgolion.[38]

**89.** Eglurodd yr Athro de Leeuw a'r Athro Hinfelaar i'r Pwyllgor fod gan gyllid ymchwil yr UE nodweddion na chânt eu rhannu â chyllid cyngor ymchwil y DU,

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 15 - Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel

[37] Sefydlwyd y rhaglen Horizon 2020 gan yr Undeb Ewropeaidd (yr UE) a dyma'r rhaglen gyllid Ewropeaidd fwyaf erioedd ar gyfer ymchwil ac arloesi.

[38] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol 2017 Horizon 2020

sef yr unig ffynhonnell sylweddol arall o gyllid ymchwil. Yn eu barn hwy ni ellir ystyried cyllid cyngor ymchwil fel rhywbeth sy'n disodli arian yr UE yn uniongyrchol. Dywedodd yr Athro de Leeuw:

> "At present we have about £34 million in research income from EU sources, mainly from Horizon 2020 [...] We can expect, over the next two and a half years, to get about another £20 million [...] even if UK Research and Innovation research funding is going to increase, it's quite different research funding [from EU funding]."[39]

**90.** Aeth yr Athro de Leeuw ymlaen i egluro:

> "If we're just talking about the money, it's funded at 100 per cent, and has a 25 per cent overhead. UKRI, on the other hand, is only funded at 80 per cent. Yes, we can look at charities, but charities don't pay overheads at all. So, that's a massive financial impact."[40]

**91.** Aeth yr Athro de Leeuw ymlaen i ddweud:

> "Cardiff University Brain Research Imaging Centre—it's the only facility in Europe. The only other facility that is comparable is actually in Boston in the States, and that's it. Two facilities in the entire world, one of which is in Cardiff. That was very heavily funded by structural funds, to the tune of £4.6 million. UKRI doesn't fund that sort of research or infrastructure at all."[41]

**92.** Darparodd ColegauCymru dystiolaeth hefyd i'r Pwyllgor i ddangos defnydd y sector o gyllid yr UE, gan nodi:

> "Over the past 10 years, FEIs in Wales have been involved in the delivery of EU funded projects to a total value of almost £600m, both as project lead or project partner."[42]

**93.** Aeth ei gyflwyniad ymlaen i nodi:

> "The high degree of concern about the potential loss of this funding across the FE sector must not be underestimated."[43]

---

[39] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 90], 12 Gorffennaf 2018

[40] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 90], 12 Gorffennaf 2018

[41] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 126], 12 Gorffennaf 2018

[42] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 01 - ColegauCymru

[43] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 01 - ColegauCymru

**94.** Dywedodd David Jones o Goleg Cambria wrth y Pwyllgor fod dibyniaeth ar brosiectau a ariennir gan yr UE o fewn addysg bellach a bod hyn yn destun pryder i'r sector yn y tymor hwy.[44] Aeth Mr Jones ymlaen i ddweud y gallai hefyd fod problem sylweddol o ran y rhaglen brentisiaeth, gan nodi:

> "...a major concern, certainly from my point of view at Cambria, and it's one of the biggest problems that we face, is the fact that the apprenticeship programme in Wales—the work-based learning programme—has for a number of years now been presented as a European project. So, it has been made bigger in terms of the quantum available for apprenticeships by using European moneys."[45]

**95.** Heb unrhyw gyhoeddiad arwyddocaol gan Lywodraeth y DU ynglŷn â manylion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU[46], mae llawer o ansicrwydd ynghylch y newid arfaethedig hwn ar gyfer cyllid strwythurol a datblygu Ewropeaidd.

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**96.** Rhoddodd Llywodraeth Cymru dystiolaeth i'r Pwyllgor i ddangos bod arian yr UE yn ddiogel hyd at ddiwedd 2020 hyd yn oed pe bai "dim bargen", gyda Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn nodi bod Cymru yn iawn hyd at 2020, oherwydd mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu hynny.[47]

**97.** Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ei phapur i'r Pwyllgor hefyd ei bod yn croesawu sefyllfa Llywodraeth y DU ar ddymuno cymryd rhan yn y rhaglen olynol i Horizon 2020, sef Horizon Europe.[48] Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd gan Senedd Ewrop[49], fel trydydd gwlad, mae'n debyg y byddai'n bolisi'r UE na fyddai'r DU yn cael mwy o arian nag y mae'n ei dalu i mewn i raglen, rhywbeth y mae Prifysgol Caerdydd yn ei nodi y mae'r DU yn elwa ohono ar hyn o bryd.

**98.** Pan holwyd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn benodol am gyllid hirdymor y rhaglen brentisiaeth sy'n dibynnu'n helaeth ar gyllid Ewropeaidd,

---

[44] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 196], 12 Gorffennaf 2018

[45] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 197], 12 Gorffennaf 2018

[46] Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn ymrwymiad maniffesto Llywodraeth y DU. Ei nod yw lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ar draws pedair gwlad y DU, ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ac na all dderbyn Cronfeydd Strwythurol yr UE mwyach.

[47] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 116], 20 Medi 2018

[48] Tystiolaeth ysgrifenedig. CYPE(5)-24-18 - Papur 1

[49] Senedd Ewrop: canllawiau ar fframwaith perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol (paragraff 34)

dywedodd fod ansicrwydd o hyd ynglŷn â chyllid ar gyfer dwy flynedd olaf y rhaglen yn seiliedig ar ddysgu ar hyn o bryd. Eglurodd y Gweinidog:

> "Yr issue i ni yw'r n+2 yma y byddem ni yn ei gael pe byddem ni yn cael unrhyw fath o transition deal neu gytundeb gyda'r Undeb Ewropeaidd. Ac felly mae yna berygl ac mae yna bryder, tu hwnt i 2020, y byddai hynny yn creu problemau os na fyddan nhw'n cytuno i ariannu hynny, a dyna'r disgwyl sydd gyda ni."[50]

**99.** Mewn perthynas â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU, dywedodd y Gweinidog:

> "I think we have some real concerns about the shared prosperity fund not really following through on the commitments that were made during the Brexit referendum."[51]

## Safbwynt y Pwyllgor

**100.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gan gyllid yr UE a ddefnyddir ar draws y sectorau addysg uwch ac addysg bellach nodweddion sy'n werthfawr i'r ddau sector y tu hwnt i'r symiau syml dan sylw. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, natur aml-flwyddyn y cyllid (sy'n arbennig o werthfawr i'r ddau sector) a'r ffaith bod prosiectau Horizon 2020 yn cael eu hariannu hyd at 100 y cant. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cynnwys cymaint o'r nodweddion ffafriol hyn a phosibl mewn unrhyw arian newydd.

**101.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 16 Hydref 2018 na fyddai unrhyw gyllid buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol yn cael ei gynnwys yng nghyllidebau craidd Cymru ac y byddai'n parhau i fod yn aml-flwyddyn ei natur.

**102.** Cred y Pwyllgor hefyd y dylid cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu unrhyw gynigion buddsoddi rhanbarthol manwl, y rôl allweddol y mae prifysgolion a cholegau addysg bellach yn ei chwarae wrth leihau anghydraddoldeb a chynyddu cynhyrchiant a ffyniant. Er mwyn helpu i sicrhau hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach wrth ddatblygu ei chynigion buddsoddi rhanbarthol.

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU bod buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol yn ddatrysiad datganoledig "gwnaed yng Nghymru" a dilyn ar ei hymrwymiad na chaiff buddsoddiad rhanbarthol yn y

[50] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 116], 20 Medi 2018

[51] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 101], 20 Medi 2018

dyfodol ei gynnwys yng nghyllidebau craidd Cymru ac y bydd yn parhau i fod yn aml-flwyddyn ei natur.

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach wrth ddatblygu unrhyw gynigion buddsoddi rhanbarthol manwl, i sicrhau bod y rôl allweddol y mae prifysgolion a cholegau yn ei chwarae wrth leihau anghydraddoldeb a chynyddu cynhyrchiant yn cael ei hystyried.

# Mater Allweddol 6 - dibyniaeth colegau addysg bellach ar gryfder cyflogwyr a'r economi

## Canfu'r Pwyllgor fod colegau addysg bellach, drwy eu ffocws mwy lleol a chwricwla yn seiliedig ar sgiliau, yn arbennig o sensitif i gryfder eu cyflogwyr a'u heconomïau lleol.

**103.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth yn dadlau bod gan golegau addysg bellach, ar y cyfan, ffocws mwy lleol na darparwyr addysg uwch. Mae hyn, wrth gyfuno â'u dysgu yn seiliedig ar waith a darpariaeth yn seiliedig ar sgiliau, yn gadael colegau addysg bellach yn arbennig o sensitif i gryfder unrhyw gyflogwyr neu sectorau economaidd sydd â phresenoldeb yn eu rhanbarthau.

**104.** Dangosodd David Jones o Goleg Cambria y pwynt hwn gan ddefnyddio'r enghraifft o amaethyddiaeth a sut y mae iechyd y sector hwnnw ar ôl Brexit yn debygol o ddylanwadu ar iechyd darpariaeth amaethyddol y coleg ei hun ac i'r gwrthwyneb. Eglurodd:

> "…yng Ngholeg Cambria mae gennym ni fferm Llysfasi yn Nyffryn Clwyd […] Ond y pryder yn fanna, wrth gwrs, yw ein bod ni'n wynebu'r holl drafferthion mae ffermwyr yn eu hwynebu. […] ond os nad ydym ni'n edrych ar ôl amaeth a chefn gwlad, rydym ni'n colli ein hiaith ni, rydym ni'n colli ein diwylliant ni, a'n cymunedau ni, reit dros Gymru."[52]

**105.** Gan ddatblygu'r pwynt ymhellach, eglurodd David Jones mewn perthynas ag Airbus a gwneuthurwyr tebyg yng Nghymru:

> "Y gwir amdani yw bod lot o gwmnïau ar draws gogledd-ddwyrain Cymru, ac ymhellach ar draws y wlad, yn dibynnu ar allu symud pobl a nwyddau neu rannau o adenydd awyren amboutu'r lle o ddydd i ddydd. Ac os ydym ni'n creu rhwystrau yn fanna, mae hynny'n mynd i greu problem fawr. Nawr, y peth i ni fel coleg ydy, wrth gwrs, y ffaith mai ni sy'n cynnig y prentisiaethau iddyn nhw i gyd."[53]

[52] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 218], 12 Gorffennaf 2018

[53] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 220], 12 Gorffennaf 2018

**106.** Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch yr effaith ar golegau a swyddi, yn ogystal â nodau ffyniant ehangach Llywodraeth Cymru, pe bai cyflogwyr prentisiaeth arwyddocaol yn lleihau eu hymrwymiadau prentisiaeth neu, o ganlyniad i Brexit, yn symud eu gweithrediadau yn gorfforol.

**107.** Soniodd Mike James o Goleg Caerdydd a'r Fro am y potensial i golegau gynhyrchu incwm masnachol ychwanegol er mwyn helpu i liniaru'r golled o arian yr UE. Dadleuodd er ei bod yn bosibl ac yn cael ei wneud ar hyn o bryd, ymagwedd ar y cyd tuag at gyllido prentisiaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r colegau fyddai'r ffordd orau o weithredu.[54]

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**108.** Roedd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd gan golegau addysg bellach eu bod yn llawer mwy agored i berfformiad economaidd eu rhanbarthau lleol, gan nodi bod y:

> "You've got to remember that FE colleges are much more anchored within their communities, they're much more localised."[55]

**109.** Adlewyrchodd y Gweinidog hefyd y dibyniaethau rhwng darpariaeth colegau addysg bellach a'u heconomeg leol, gan nodi:

> "link between apprenticeships and the local work community is absolutely crucial [...] So if the economy nosedives [...] then that will inevitably have an impact on the number of apprenticeships that will be on offer."[56]

**110.** Tynnodd y Gweinidog sylw'r Pwyllgor hefyd at y ffaith bod gan rai o'r sectorau y mae Llywodraeth Cymru yn poeni fwyaf amdanynt gysylltiadau cryf iawn â'r sector addysg bellach, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, adeiladu, lletygarwch a thwristiaeth, a ffermio.[57]

## Safbwynt y Pwyllgor

**111.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y dystiolaeth a gafodd yn dangos bod natur leol y colegau addysg bellach a'u cwricwla yn seiliedig ar sgiliau yn gwneud eu

---

[54] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 204], 12 Gorffennaf 2018
[55] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 20 Medi 2018
[56] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 20 Medi 2018
[57] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 38], 20 Medi 2018

sensitifrwydd cynhenid i unrhyw effeithiau economaidd negyddol posibl yn sgil Brexit, yn anochel.

**112.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu'n gryf y dylai Llywodraeth Cymru geisio cynnwys colegau yn ei gwaith cynllunio ar gyfer gwella sgiliau gweithwyr mewn sectorau economaidd a allai fod yn agored i risg yn sgil Brexit a bod gan golegau rôl hanfodol i'w chwarae yn hyn o beth.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i weithio ar y cyd â'r sector addysg bellach i ddatblygu a chyhoeddi cynllun ar y cyd, a ariennir gan gais am gyllid o Gronfa Bontio'r UE a chan ystyried yr anghenion rhanbarthol gwahanol, i nodi ac ymateb i unrhyw ofynion sgiliau newidiol y sectorau hynny sydd fwyaf tebygol o wynebu amhariad sy'n gysylltiedig â Brexit.

# Mater Allweddol 7 - Yr heriau sy'n wynebu ymchwil ac arloesi yng Nghymru

## Canfu'r Pwyllgor fod gweithgarwch ymchwil ac arloesi yng Nghymru yn wynebu nifer o heriau pwysig sy'n mynd y tu hwnt i gyllid.

**113.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ar ddyfodol prosiectau ymchwil Cymru a chyllid ar ôl Brexit. Thema glir a ddaeth i'r amlwg oedd, er bod disodli lefel cyllid yr UE Punt am Ewro yn hanfodol, bydd heriau eraill i weithrediad prosiectau a rhaglenni'r UE yn debygol o barhau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr angen i barhau i ddenu ymchwilwyr o ansawdd uchel sy'n symudol iawn yn fyd-eang.
- Yr angen i wrthdroi unrhyw ganfyddiad bod y DU yn amgylchedd anghyfeillgar i ymchwilwyr o ansawdd uchel.
- Yr angen i barhau i fod yn ddeniadol i fyfyrwyr ymchwil PhD o ansawdd uchel mewn marchnad fyd-eang gystadleuol iawn.
- Yr angen i ddiogelu a pharhau i ddatblygu rhwydweithiau a chyfleusterau cydweithredol cyffredinol.
- Natur wahanol cyllid y cyngor ymchwil yn y DU a'i analluedd i fod yn amnewidiad uniongyrchol ar gyfer cyllid yr UE.
- Yr angen i gau bwlch cyllido ymchwil ac arloesi sydd eisoes yn bodoli.
- Effaith cael statws "trydydd gwlad" ar benderfyniadau a chyllid cyffredinol.

**114.** Yn ystod trafodaethau mis Gorffennaf 2018 gydag Aelodau'r Pwyllgor, siaradodd llawer o randdeiliaid am yr angen i barhau i fod yn amgylchedd deniadol i fyfyrwyr ymchwil PhD o ansawdd uchel. Pwysleisiodd rhanddeiliaid hefyd fod ymchwilwyr llwyddiannus a blaengar yn symudol iawn yn fyd-eang, mewn marchnad ryngwladol gystadleuol iawn. Roedd y rhanddeiliaid yn credu y

gallai Brexit roi'r DU dan anfantais yn hyn o beth os yw rheolaethau ffiniau yn gyfyngedig.[58]

**115.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, yn benodol mewn perthynas â'r cwestiwn ar yr hyn a oedd yn cael ei wneud i ddiogelu cydweithrediadau a rhwydweithiau ymchwil yr UE, dywedodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru:

> "The UK is often currently perceived as a hostile environment to non-British citizens, and this perception needs to be reversed or inevitably, the UK will be unattractive for future projects."[59]

**116.** Soniodd yr Athro Medwin Hughes, is-ganghellor Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, wrth y Pwyllgor am bwysigrwydd diogelu'r cyfle i fyfyrwyr ymchwil brofi gwahanol gyd-destunau ymchwil yn rhyngwladol. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "Ar gyfer myfyrwyr o bosibl sydd yn dod o gefndiroedd tlotach, mae'r cyfle maen nhw'n ei gael i gael profiadau newydd yn aruthrol ac mae'n bwysig iawn ein bod ni'n diogelu hynny. Ond hefyd, nid yn unig ar gyfer is-fyfyrwyr, mae'r profiad ar gyfer myfyrwyr ymchwil o gyd-destunau ymchwil gwahanol mewn prifysgolion, mae hwnnw hefyd yn aruthrol o bwysig i ni ei ddiogelu."[60]

**117.** Roedd tystiolaeth gan Brifysgolion Cymru yn awgrymu bod angen brys i gau'r bwlch cyllido ymchwil ac arloesi sy'n bodoli gyda Lloegr a'r Alban ac i unioni'r diffyg cyllid arloesi presennol ar gyfer addysg uwch sydd ar gael i brifysgolion Cymru, sy'n werth £8 miliwn y flwyddyn, a gafodd ei dorri o 2013/14.

**118.** Dywedodd yr Athro Pritchard wrth y Pwyllgor:

> "On the gap between Wales and the rest of the UK, one thing that would make a big difference, and which is also one of the recommendations in the Reid review, is to put in place higher education innovation funding, HEIF funding, which exists in England."[61]

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

**119.** Un o brif liferi Llywodraeth Cymru o ran diogelu ymchwil ac arloesi yng Nghymru yw ariannu'r argymhellion a wnaed gan yr Athro Graeme Reid yn ei

---

[58] Trafodaeth y Rhanddeiliaid - 4 Gorffennaf 2018

[59] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 06 – Cymdeithas Ddysgedig Cymru

[60] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 46], 12 Gorffennaf 2018

[61] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 127], 12 Gorffennaf 2018

adolygiad a oedd yn edrych ar sut y gellid cynnal cystadleurwydd ymchwil ac arloesi yng Nghymru, ar ôl Brexit, drwy sicrhau mwy o gyllid gan gynghorau ymchwil y DU.[62]

**120.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "We also continue to look to respond to the Reid review proposals, about how we can beef up our own research and continue to engage with UK Research and Innovation to make sure that, with any research money that comes out of that negotiation, Wales is in a competitive position to be able to bid successfully for that."[63]

## Safbwynt y Pwyllgor

**121.** Mae'r Pwyllgor yn glir nad heriau cyllido yw'r unig fater a allai amharu ar waith ymchwil ac arloesi yng Nghymru a bod yn rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r materion mwy manwl hyn er mwyn osgoi aflonyddwch diangen.

**122.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y ffactorau aflonyddgar hyn yn cynnwys newidiadau i a throsglwyddo oddi wrth: y tirwedd rheoleiddiol Ewropeaidd, cyfreithiau eiddo deallusol, cyfreithiau diogelu data; a'r galwad posibl ar delerau force majeure mewn cytundebau contract unigol ar y cyd â nifer o faterion manwl pellach.

**123.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn teimlo'n gryf, er mwyn parhau i gynhyrchu ymchwil o'r radd flaenaf ac er mwyn parhau i weithio gyda busnesau a phartneriaid eraill i ddatblygu arloesedd - a ddisgrifir yn Ffyniant i Bawb fel peiriant ffyniant[64] - rhaid i brifysgolion Cymru fod yn gystadleuol wrth ennill ffynonellau cyllid ymchwil nad ydynt yn rhan o'r UE. Mae hyn yn bwysicach nag erioed ar ôl Brexit.

**124.** Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor yn cytuno ac yn cymeradwyo'n frwdfrydig y casgliadau a'r argymhellion a wnaed gan yr Athro Reid yn ei adolygiad o ymchwil ac arloesi a ariennir gan y Llywodraeth. Mae'r Pwyllgor yn rhannu ei farn, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn, bod angen i brifysgolion Cymru symud ymlaen o'u dibyniaeth fwy yn hanesyddol ar gyllid strwythurol yr UE a dod yn fwy cystadleuol yn ennill cyllid ehangach yn y DU i'w ddisodli.

[62] Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru gan yr Athro Graeme Reid

[63] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 41] – 20 Medi 2018

[64] Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi

**125.** O ystyried mai bwriad yr adolygiad oedd ymateb i Brexit, a'i nod oedd cynyddu cystadleurwydd prifysgolion Cymru, mae'r Pwyllgor yn siomedig iawn nad yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 Cymru yn cynnwys unrhyw gyllid o gwbl ar gyfer gweithredu argymhellion yr Athro Reid. Mae hyn, er gwaethaf Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid canlyniadol Barnett ychwanegol yn deillio o gynnydd mewn blwyddyn yng nghyllideb Ymchwil Lloegr ar gyfer 2018/19. Er bod Llywodraeth Cymru wedi amsugno'r arian canlyniadol hwn i mewn i gyllid craidd, pasiodd Llywodraeth yr Alban ei chronfeydd canlyniadol ei hun yn uniongyrchol i Gyngor Cyllido'r Alban, gan ddarparu £11.6 miliwn yn ychwanegol yn y flwyddyn i ariannu rhagoriaeth ymchwil ac arloesi[65].

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd sylfaenol ymchwil ac arloesi i ffyniant Cymru a chydnabod y perygl o golli tir i Loegr a'r Alban o ran ariannu'r gweithgareddau hyn yn yr hyn sy'n sefyllfa gystadleuol iawn. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau ariannu'r argymhellion a wnaed gan yr Athro Reid yn ei adolygiad ar unwaith.

[65] Cyngor Cyllido'r Alban Llythyr Cyllid

# Mater Allweddol 8 - Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit

Nid yw'r Pwyllgor wedi cael ei ddarbwyllo gan bob agwedd ar baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit, yn enwedig y diffyg eglurder cychwynnol o ran dau ddyraniad cyllid o bron i £10 miliwn a'r diffyg cyllid ar gyfer gweithredu argymhellion adolygiad Reid.

**126.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei sefyllfa ehangach ar Brexit mewn amrywiaeth o ddogfennau polisi o dan Bapur Gwyn cyffredinol Diogelu Dyfodol Cymru.[66] Mae ei ofynion i Lywodraeth y DU yn cyd-fynd yn fras â'r materion allweddol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y Papur yn galw am ddim cyfyngiadau mewnfudo ychwanegol ar staff a myfyrwyr yr UE, trefniadau ffioedd dysgu cyfatebol gyda'r UE, parhau i gymryd rhan yn rhaglenni ERASMUS+ a Horizon, a gwarantu statws gwladolion yr UE i staff sy'n gweithio ym mhrifysgolion y DU.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

**127.** Wrth baratoi ar gyfer Brexit, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau allweddol, gan gynnwys:

- Sefydlu Gweithgor Brexit Addysg Uwch.
- Gwarantu cymorth ariannol myfyrwyr i fyfyrwyr yr UE sy'n dechrau eu cyrsiau yn 2019/20.
- Derbyn, mewn egwyddor, yr argymhellion a wnaed yn adolygiad yr Athro Graeme Reid o ymchwil ac arloesi yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

**128.** O ran yr asesiadau risg a gynhaliwyd mewn perthynas â Brexit, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Gweithgor Brexit Addysg Uwch "wedi trafod y goblygiadau ar gyfer addysg uwch mewn perthynas ag ymadawiad y Deyrnas

[66] Papur Gwyn - Diogelu Dyfodol Cymru

Unedig (DU) o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Roedd dadansoddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) yn sail i'r trafodaethau hynny".[67]

**129.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, drwy drafodaethau parhaus gyda'r sector, fod y gweithgor wedi nodi prif elfennau Brexit a fydd yn cael effaith ar incwm a gweithgareddau addysg uwch, a oedd yn ymwneud yn fras â'r canlynol:

- Mynediad at fframweithiau cyllid a chymorth yr UE ar gyfer symudedd rhyngwladol a chydweithrediadau ymchwil rhyngwladol;
- Mynediad at fuddsoddiad cronfeydd strwythurol yr UE, sydd wedi elwa ar seilwaith ymchwil;
- Pryderon ynghylch polisi neu naratif mewnfudo Llywodraeth y DU yn y dyfodol nad yw'n annog staff a myfyrwyr yr UE i ddod i'r DU.

**130.** Roedd tystiolaeth gan CCAUC ar yr effaith bosibl ar y sector yn cadarnhau bod darparwyr unigol yn ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer lliniaru camau i leihau costau wrth i effaith benodol Brexit ddod yn glir dros y misoedd nesaf.[68] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, mewn llythyr at y Pwyllgor:

> "Ni fydd y darlun llawn yn amlwg tan ar ôl inni gael y manylion llawn am unrhyw gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithio gyda HEFCW a'n sefydliadau i ddeall ac asesu'r goblygiadau wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy clir."[69]

**131.** Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn credu bod cyllid ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r UE yn ddiogel hyd at ddiwedd 2020. Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet yn benodol ynghylch pa mor barod yr oedd ar gyfer Brexit, mewn perthynas ag addysg uwch, dywedodd:

> "…there has been considerable success in the HE field in securing structural funds for various projects—the exposure and the potential impact of leaving the EU, in a 'no deal' or in a 'deal' scenario, is very, very different."[70]

---

[67] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - 23 Hydref 2018
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig. IB 19 - Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
[69] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - 23 Hydref 2018
[70] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 6], 20 Medi 2018

**132.** Aeth Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru, ymlaen i ddweud:

> "…More recently, when the prospect of no deal became talked about, officials have been visiting individual institutions to talk to them about their preparedness for that. As you'll be aware, the funding for much of the activity is secured, we believe, even under a 'no deal' scenario, until December 2020; that's a letter we had from the Chief Secretary to the Treasury."[71]

**133.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud dau ymyriad ariannol uniongyrchol:

- Darparu £6.241 miliwn a sicrhau bod CCAUC yn ei gael i "alluogi'r Cyngor i ymdrin ag unrhyw oblygiadau byrdymor sy'n deillio o newidiadau demograffig a goblygiadau cychwynnol trefniadau pontio'r UE".[72]
- Darparu £3.5 miliwn i'r rhaglen Cymru Fyd-eang II i "[g]efnogi cynnydd sylweddol yng nghwmpas a chyrhaeddiad y rhaglen i gyflwyno'r brand Study in Wales yn fyd-eang, datblygu gweithgarwch presennol yn yr Unol Daleithiau a Fietnam, ac ymestyn i farchnadoedd eraill".[73]

**134.** Yn ystod gwaith craffu Ysgrifennydd y Cabinet ar y ddau ymyriad ariannol uniongyrchol a wnaed gan Lywodraeth Cymru hyd yma, nid oedd yn glir sut y dyrannwyd y £6.241 miliwn na sut y cafodd ei wario'n ymarferol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach o hyn gan Ysgrifennydd y Cabinet a ysgrifennodd wedyn at y Pwyllgor yn nodi:

> "[the £6.241M]…was allocated as part of HEFCW's overall grant in aid. It is for the Council to determine how it distributes funds allocated to it by the Welsh Government."[74]

**135.** Mewn gohebiaeth bellach ynglŷn â'r arian hwn, aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud:

> "HEFCW is responsible for determining how the funds allocated to it by Welsh Government should be distributed. In this instance, they will have used their knowledge of the sector and expertise to judge the

[71] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 20 Medi 2018
[72] Tystiolaeth ysgrifenedig. CYPE(5)-24-18 - Papur 1
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig. CYPE(5)-24-18 - Papur 1
[74] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - 5 Tachwedd 2018

most appropriate method of allocating the resources provided. In their view, as the funding was money brought forward from funds initially identified for the 2018-19 financial year, they judged that reducing the size of the funding adjustment applied to their 2017-18 allocations would ensure institutions were able to benefit immediately from the earlier allocation of funds and would enable them flexibility to further develop contingency planning for Brexit." [WELSH?][75]

**136.** Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y dychweliad ar fuddsoddiad a ddisgwylir o'r £3.5miliwn o gyllid a ddarperir ar gyfer Cymru Fyd-eang II, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "that is subject to continuing negotiations with Universities Wales before we let any contracts with them [...]
>
> ...We expect that all institutions—should they have a desire to participate—will be able to be assisted, as well as the overall global branding from Universities Wales and the new Study in Wales initiative."[76]

## Safbwynt y Pwyllgor

**137.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â nifer o gamau gweithredu i baratoi'r sectorau ar gyfer Brexit. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, wrth baratoi ar gyfer Brexit, wedi:

- Sefydlu Gweithgor Brexit Addysg Uwch; a
- Gwarantu cymorth ariannol myfyrwyr i fyfyrwyr yr UE sy'n dechrau eu cyrsiau yn 2019/20.

**138.** Fodd bynnag, cred y Pwyllgor nad yw pob agwedd ar waith paratoi Llywodraeth Cymru wedi bod yn foddhaol. Yn benodol, mae'r Pwyllgor wedi'i siomi gan yr angen i wneud argymhellion mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn mewn perthynas â mentrau Brexit Llywodraeth Cymru, sef y rhaglen Cymru Fyd-eang ac ariannu adolygiad Llywodraeth Cymru o gyllid ymchwil ac arloesi.

---

[75] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – 23 Hydref 2018

[76] Tystiolaeth lafar. Cofnod y Trafodion [paragraff 75 & 77] – 20 Medi 2018

# Atodiad A – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
| --- | --- |
| 12 Gorffennaf 2018 | Yr Athro Nora de Leeuw, Prifysgol Caerdydd |
| | Yr Athro Maria Hinfelaar, Prifysgol Glyndŵr |
| | Yr Athro Medwin Hughes, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| | Berwyn Davies, Pennaeth Swyddfa Addysg Uwch Cymru Brwsel |
| | Mike James, Coleg Caerdydd a'r Fro |
| | David Jones, Coleg Cambria |
| | Caroline James, Coleg Sir Benfro |
| | Claire Roberts, ColegauCymru |
| 18 Gorffennaf 2018 | Dr David Blaney, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| | Bethan Owen, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| 20 Medi 2018 | Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg |
| | Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes |
| | Huw Morris, Llywodraeth Cymru |
| | Marie Knox, Llywodraeth Cymru |

# Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Sefydliad | Cyfeirnod |
|---|---|
| ColegauCymru | IB 01 |
| Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI) yng Nghymru | IB 02 |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | IB 03 |
| Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | IB 04 |
| Prifysgol Caerdydd | IB 05 |
| Cymdeithas Ddysgedig Cymru | IB 06 |
| Prifysgol Wrecsam Glyndŵr | IB 07 |
| Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru | IB 08 |
| Comisiynydd y Gymraeg | IB 09 |
| Deoniaid Gwyddoniaeth y DU | IB 10 |
| Geraint Talfan Davies | IB 11 |
| Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru | IB 12 |
| Jisc | IB 13 |
| British Heart Foundation Cymru | IB 14 |
| Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel | IB 15 |
| Plaid Cymru | IB 16 |
| Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru | IB 17 |
| British Council | IB 18 |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | IB 19 |
| Llywodraeth Cymru | IB 20 |

# Atodiad C - Nodyn ar y Digwyddiad Rhanddeiliaid - 4 Gorffennaf

Ar 4 Gorffennaf, fel rhan o'i ymchwiliad i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru yn sgil Brexit, cynhaliodd Aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ddigwyddiad i glywed barn rhanddeiliaid.

Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid yn ystod y digwyddiad ar dair thema'r ymchwiliad. Y safbwyntiau a fynegir yw barn yr unigolion ac nid o reidrwydd barn eu sefydliadau, neu Aelodau'r Cynulliad.

## Canlyniadau Dysgwyr a Chyflogadwyedd

- Roedd un o'r rhanddeiliad o'r farn bod cwmpas o hyd i brifysgolion y DU a'r UE gydweithio o'u gwirfodd (heb fod yn ddibynnol ar yr UE) i gynnig graddau ar y cyd, graddau deuol a graddau dwbl. Roedd yn credu bod angen i'r gwaith hwn barhau ar ôl Brexit. Mynegwyd barn arall y gallai rhai prifysgolion fod yn gyndyn o ddatblygu'r llwybr hwn gan y gallant golli incwm ffioedd gan y myfyrwyr sy'n mynd i astudio dramor. Yn gysylltiedig â hyn, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod cydnabyddiaeth gyffredin barhaus o gymwysterau a dyfarniadau rhwng y DU ac Ewrop yn hanfodol.

- Ystyriwyd bod dod â'r Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer myfyrwyr newydd o fis Medi 2018 ymlaen i ben yn arwyddocaol gan fod yn rhaid i fyfyrwyr yr UE bellach ariannu'r ffi ddysgu gyfan, gwerth £9,000 - mae rhai rhanddeiliaid yn rhagdybio y gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r nifer is o ymgeiswyr yr UE i sefydliadau yng Nghymru ar gyfer mis Medi 2018. Roedd ffactorau eraill a grybwyllwyd fel esboniadau posibl ar gyfer y gostyngiad hwn yn cynnwys myfyrwyr yr UE ddim yn teimlo bod croeso iddynt, ac un rhanddeiliad yn egluro nad yw sefydliadau, yn eu barn hwy, wedi canolbwyntio ar recriwtio myfyrwyr yr UE gymaint â myfyrwyr rhyngwladol eraill.

- Mynegwyd y farn bod angen cynnig telerau cyflogaeth gwell er mwyn denu myfyrwyr ymchwil rhagorol mewn amgylchedd cystadleuol iawn. Rhoddwyd enghraifft o fyfyrwyr PhD sy'n addysgu ym Mhrifysgol Bryste yn cael eu cyflogi ar delerau "Gwaith Teg".

- Ni fynegodd unrhyw randdeiliaid farn yn erbyn yr angen i barhau i sicrhau symudiad mewnol ac allanol myfyrwyr ar raglenni symudedd

rhyngwladol. Dadleuwyd ar bob un o fyrddau'r rhanddeiliaid bod y symudedd dwy ffordd hwn yn cynnig manteision sylweddol i fyfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mynegwyd y farn bod symudedd mewnol hefyd yn helpu i sicrhau corff o fyfyrwyr mwy amrywiol sy'n ehangu gorwelion myfyrwyr ac yn gwella eu sgiliau meddal. Fel rhan o hyn, ystyriwyd bod Erasmus+ yn hanfodol gan ei fod yn rhaglen fawr iawn sydd wedi'i sefydlu ers peth amser, yn frand adnabyddadwy ac mae wedi ennill ei phlwyf. Roedd y rhanddeiliaid i gyd o'r farn y byddai'r rhaglen Erasmus+ nesaf sydd i'w chynnal o 2021 ymlaen yn welliant sylweddol ar y fersiwn gyfredol. Dadleuwyd mai'r opsiwn gorau oedd parhau i gymryd rhan yn yr Erasmus+ newydd; pe na bai hyn yn bosibl, cytunodd y rhanddeiliaid i gyd fod yn rhaid i Gymru greu cynllun tebyg.

- Mynegodd rhanddeiliaid y farn y bydd ymgysylltiad rhwng sefydliadau addysg uwch/addysg bellach a chyflogwyr a diwydiant, yn enwedig rhai byd-eang megis General Dynamics ac Airbus yng Nghymru, yn dod yn bwysicach, ar ôl Brexit, mewn gwella cyflogadwyedd myfyrwyr.

## Cynaliadwyedd ariannol a chyfleoedd buddsoddi

- Mynegodd rhanddeiliaid y farn bod arian yr UE yn llenwi bylchau ariannu a fydd yn dal i fodoli os bydd arian yr UE yn dod i ben. Dywedodd un o'r rhanddeiliad pe byddai arian yr UE yn dod i ben heb rywbeth i gymryd ei le, y byddai angen newid y "model addysgol" yng Nghymru.

- Roedd consenswս eang nad yw'r model presennol o gyllid Ewropeaidd (yn enwedig cyllid strwythurol) heb anfanteision a phroblemau - roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn cynnwys ei fod yn fiwrocrataidd, yn creu ffiniau daearyddol artiffisial, yn gallu rhannu prosiectau ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac yn arwain at sefydliadau'n edrych am ffyrdd o ddefnyddio'r mathau o arian sydd ar gael, yn hytrach na gallu gwneud cynnig am gyllid cyffredinol ar gyfer prosiectau ymchwil a ddyfeisir gan brifysgolion.

- Mynegwyd pryder y gallai buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol, ar ôl Brexit, gael ei amsugno i mewn i grant bloc Cymru ac yna ni fydd yn hygyrch yn yr un ffordd ag y mae nawr. Roedd safbwyntiau gwahanol ar weithrediad unrhyw gronfa ranbarthol yn y DU yn y dyfodol gyda rhai rhanddeiliaid yn dadlau am y "pot" llawn i aros gyda'r DU er mwyn

peidio â gosod terfyn ar gynigion ariannu posibl, tra bod eraill yn teimlo y dylai'r "pot" gael ei ddatganoli.

- Roedd pryder ynghylch y diffyg gwybodaeth ynglŷn â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU[77] a lefel y dylanwad y bydd gan Gymru drosti. Mynegodd rhanddeiliaid y farn bod angen i leisiau Cymru ddylanwadu ar y sgyrsiau sy'n ymwneud â chyllid ar ôl Brexit.

- Teimlai rhanddeiliaid fod y ffaith yr ymddengys nad oes gan Lywodraeth y DU safbwynt y mae'n cytuno arno ynghylch y trefniadau ar ôl Brexit yn ei gwneud yn fwy anodd cynllunio. Maent yn dadlau bod hyn yn creu penbleth ynghylch a ddylai Cymru fod yn cynllunio ar gyfer senarios neu'n aros i weld beth fydd yn digwydd.

- Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod lle i ddisodli rhywfaint o gyllid yr UE, ond nid y cyfan, drwy weithio yn y sector elusennol a chyda diwydiant. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhanddeiliaid o'r sector addysg bellach yn benodol y bydd sefydliadau'n dal i fod angen mynediad at gyllid cyfalaf, yn enwedig ar gyfer gwelliannau i ystadau ac i wella profiad y dysgwr.

## Cyllid a chydweithredu o ran ymchwil ac arloesi

- Ystyriwyd bod cyllid ymchwil yr UE yn hanfodol bwysig ac yn faes lle mae Cymru wedi tanberfformio. Dywedodd y rhanddeiliaid fod angen y capasiti ar brifysgolion i wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid ymchwil - mae angen llawer o seilwaith ymchwil sydd eisoes ar waith arnynt i fod â chyfle i ennill cystadlaethau cyllido mwy o faint. Felly mae cyrraedd sefyllfa o ennill cynigion mawr yn gofyn am gyllid yn y lle cyntaf, ac mae cronfeydd yr UE, yn ôl rhai o'r rhanddeiliaid, wedi helpu sector addysg uwch Cymru i feithrin y capasiti hwn. Roedd nifer o'r rhanddeiliaid yn dadlau bod prifysgolion Cymru bellach yn gallu ennill mwy o gyllid gan y DU oherwydd y capasiti ychwanegol sydd wedi'i gasglu yn sgil cyllid yr UE.

- Roedd consensws y dylai'r DU barhau i fod yn rhan o'r rhaglen ymchwil Ewropeaidd Horizon 2020 a'i raglen olynol Horizon Europe o 2021 ymlaen. Roedd y rhai a oedd yn bresennol o'r farn bod y rhaglenni hyn yn cynnig sefydlogrwydd tymor hwy gyda chylchoedd saith mlynedd a rhaglenni aml-flwyddyn.

[77] Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i greu Cronfa Ffyniant a Rennir y DU (UKSPF), sef rhaglen fuddsoddi ddomestig ar ôl ymadael â'r UE. Ychydig iawn o fanylion sydd ar gael ar hyn o bryd.

- Mynegodd rhanddeiliaid y farn hefyd bod angen gweithredu argymhellion Adroddiad Reid i ymchwil ac arloesi a ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd er mwyn helpu prifysgolion Cymru i gael arian o ffynonellau yn y DU i ddisodli cyllid yr UE.

- Trafododd y rhanddeiliaid y posibilrwydd o ennill ymchwil gan elusennau. Er bod llawer yn cytuno ei fod yn ffynhonnell fawr o gyllid, roedd yn parhau i fod yn broblem oherwydd:

    - efallai na fydd mathau penodol o ymchwil a gynhelir gan elusennau yn cyd-fynd â phroffiliau ymchwil darparwyr; ac

    - efallai na fydd arian gan elusennau yn cwmpasu gorbenion, sy'n golygu bod sefydliadau'n dal i orfod talu'r rhain.

- Pwysleisiwyd gan nifer o'r rhanddeiliaid bod ymchwilwyr llwyddiannus yn symud ar draws y byd - byddant yn symud i'r sefydliadau ymchwil gorau mewn marchnad ryngwladol gystadleuol iawn. Roeddent yn credu y gallai Brexit roi'r DU dan anfantais yn hyn o beth os yw rheolaethau ffiniau yn gyfyngedig.